

# Cyfleoedd i gwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: Rhifyn 3

## LLYTHRENNEDD: DARLLEN

Yn gyffredinol, wrth ddarllen drwy'r cylchgrawn, mae cyfleoedd i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan drwy

- ddefnyddio'ŷ gwybodaeth am darddiad a theuluoedd geiriau (e.e. yn yr adrannau **Beth ydy'r geiriau Cymraeg / Saesneg?**)
- defnyddio'ŷ gwybodaeth o gystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan
- defnyddio'ŷ gwybodaeth o gynnwys a chyd-destun.

Mae cyfleoedd i:

- ddefnyddio ystod o strategaethau, e.e. *darllen cyflym*, *darllen agos*, *anodi*, *rhagfynegi*, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges
- canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall y wybodaeth sydd ynddynt.

Yn fwy penodol, mae cyfleoedd i:

- ddilyn syniadau cychwynol sydd o ddiddordeb iddynt drwy wneud rhagor o ymchwil, e.e. yn y darn "Wrth y bwrdd".

## LLYTHRENNEDD: LLAFAREDD

Yn gyffredinol, wrth ymateb ar lafar i'r darnau darllen, mae cyfleoedd i:

- ymateb yn bwyllog i syniadau eraill, gan ofyn cwestiynau cymwys.

## LLYTHRENNEDD: YSGRIFENNU AR DRAWS Y CWRICWLWM

Wrth ymgymryd â gwaith ysgrifennu, mae cyfleoedd i:

- ddefnyddio offer a chonfensiynau TGCh i gyflwyno gwybodaeth a data ac i strwythuro ysgrifennu
- nodi meysydd i'w gwella yn eu gwaith ysgrifennu, golygu ac ailddrafftio
- defnyddio paragraffau i drefnu darnau ysgrifennu hirach yn adrannau
- ysgrifennu brawddegau gan sicrhau bod amser a pherson y ferf fel arfer yn gywir yn ei gyd destun
- defnyddio'r ystod lawn o atalnodi'n gywir er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, e.e. *dynodi brawddegau (atalnodau llawn) a chymalau (atalnodau)*, a *defnyddio collnodau'n gywir*
- cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.

## RHIFEDD: DATBLYGU YMRESYMU RHIFYDDOL

Wrth wneud holiaduron ac ymateb i graff (e.e. yn y darn "Beth ydych chi'n fwyta?"), mae cyfleoedd i:

- ddehongli gwybodaeth fathemategol; defnyddio graffiau, diagramau a data i ddod i gasgliadau, gan gynnwys trafod cyfyngiadau data.

## RHIFEDD: DEFNYDDIO SGILIAU DATA

Wrth wneud holiaduron a chreu graffiau (e.e. yn y darn "Beth ydych chi'n fwyta?"), mae cyfleoedd i:

- lunio ystod eang o graffiau a diagramau i gyflwyno'r data.